


ARWEINYDD CLWB

1. BETH YW RÔL ARWEINYDD?

Rôl arweinydd yw darparu cyngor, cefnogaeth ac arweiniad i swyddogion ac aelodau'r clwb, o safbwynt holl agweddau cynnal Clwb Ffermwyr Ifanc. A Gweithredu os neu phan fydd angen cefnogi'r clwb trwy amseroedd anodd.



2. BETH SYDD YN GWNEUD ARWEINYDD DA AC EFFEITHIOL?

Mae bod yn berson cyfrifol yn allweddol i'r swydd yma! Mi ddylai'r Arweinydd medru darparu cyngor, cefnogaeth ac arweiniad i'r swyddogion ac aelodau'r clwb a bod yn barod i wrando a chofio mai'r aelodau sydd â'r gair olaf.

3. CANLLAWIAU PWYSIG

- Rhaid i bob Arweinydd gyflawni DBS – mae'n hanfodol bod pob Arweinydd yn gwneud hyn. Sicrhewch hefyd eich bod yn ymwybodol o ganllawiau amddiffyn plant, yn enwedig os oes aelodau sy'n iau na 18 oed yn y Clwb. Bydd hyn yn eich diogelu chi yn ogystal â'r aelodau.
- Mae Arweinydd Clwb yn darparu cyngor, cefnogaeth ac arweiniad i swyddogion ac aelodau'r clwb, o safbwynt holl agweddau cynnal Clwb Ffermwyr Ifanc.
- Dewch i adnabod eich clwb a'r aelodau. Bydd hyn yn eich galluogi i benderfynu pryd y dylid cynorthwyo a phryd y dylid cymryd cam yn ôl ac arsylwi.
- Parchwch werthoedd a safbwyntiau'r bobl ifanc a'r rhinweddau y mae'r swyddogion yn cyfrannu i'r gwaith; efallai nad ydynt yn gwneud pethau yn ôl eich dull chi, ond fe allai eu dulliau hwy llwyddo serch hynny.
- Byddwch yn ddiplomatig a chofiwch mai'r aelodau sydd â'r gair olaf.
- Gweithredwch fel 'mentor' i'r swyddogion clwb, yn enwedig i'r swyddogion newydd, ifanc a dibrofiad.
- Peidiwch a beirniadu'r aelodau neu ddweud 'ddywedais i na fyddai'n llwyddo'.
- Sicrhewch fod y clwb yn dilyn unrhyw ddeddfwriaeth berthnasol.
- Sicrhewch eich bod yn gyfarwydd â'r Polisi Iechyd a Diogelwch a gofynnwch am gefnogaeth gan y swyddfa sirol o safbwyntiau sefydlu gweithdrefnau iechyd a diogelwch/asesu risg.
- Sicrhewch eich bod yn deall swyddogaethau'r aelodau yr ydych yn ei cefnogi a'u bod hwy yn deall eich swyddogaeth chi.
- Gweithredwch os a phan fydd angen cefnogi'r clwb yn ystod amseroedd anodd.
- Cadwch gyswllt a'r clwb trwy fynychu'r cyfarfodydd a'r digwyddiadau'n rheolaidd neu drwy ddulliau eraill fel y bo'n addas. **Rhaid bod o leiaf dau Arweinydd yn bresennol ym mhob gweithgaredd clwb.**
- Sicrhewch fod y clwb yn darparu rhaglen gytbwys ar gyfer yr aelodau.
- Byddwch yn hawdd mynd atoch ac eich bod yn barod i wrando bob amser, waeth pa mor brysur ydych chi.
- Sicrhewch fod yr aelodau'n gwybod sut i gysylltu â chi, a'ch bod ar gael os ydynt eich angen chwi.
- Rhannwch air o brofiad gydag arweinyddion eraill, o fewn y clwb ac o glybiau eraill.

- Cofiwch, nid oes rhaid i chi fod yn arbenigwr ymhob maes, ond dylech fod yn barod i ddarganfod beth i'w wneud os na allwch ddatrys problem benodol.
- **Sicrhewch bod pob aelod sy'n mynychu digwyddiad o'r Clwb yn aelodau – hanfodol bwysig er mwyn bod yr yswiriant yn eu diogelu.**

4. COFIWCH...

Os nad ydych yn siwr am rhywbeth neu os oes gennych problem – Ffoniwch y swyddfa.

Gallwch hefyd ofyn i gyn swyddogion, aelodau hŷn, arweinyddion a rhieni eich clwb am help.



Swyddfa: 01570 471444

ceredigion@yfc-wales.org.uk

www.yfc-ceredigion.org.uk